## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Diben y Rheoliadau hyn yw diwygio Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 (OS 2000/1786 (Cy.123)) ("Rheoliadau 2000"). Mae'r Rheoliadau hynny (ynghyd â Rheoliadau perthynol sy'n ymwneud ag esemptiadau ar gyfer personau anabl) yn gwneud darpariaeth ar gyfer system o fathodynnau glas i bersonau anabl o Gymru, a fydd yn ddilys ledled yr Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 3 yn diwygio testun Saesneg rheoliad 2 o Reoliadau 2000 drwy roi diffiniadau o "*organisation*" ac "*organisational badge*" yn lle'r diffiniadau o "*institution*" ac "*institutional badge*". Mae'r newid enwau hwn yn tarddu o ddiwygiad i adran 21(4) o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970, a wnaed gan baragraff 41 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Gwneir diwygiadau canlyniadol eraill, sy'n tarddu o'r paragraff hwnnw, i destun Saesneg Rheoliadau 2000 gan reoliadau 6, 8, 9, 10 ac 11 o'r Rheoliadau hyn. Nid oes angen diwygiadau cyfatebol yn y testun Cymraeg oherwydd bod y gair "sefydliad", a ddefnyddir yn y testun Cymraeg, yn cyfleu "*organisation*" yn ogystal ag "*institution*".

Mae rheoliad 4 yn dirymu darpariaethau darfodedig yn rheoliad 3 o Reoliadau 2000.

Mae rheoliad 5 yn addasu'r disgrifiad, a bennir yn rheoliad 4 o Reoliadau 2000, o bersonau y ceir rhoi bathodyn person anabl iddynt.

Mewnosodir dosbarth cymhwystra newydd, sy'n cynnwys plant o dan 3 oed sy'n dod o fewn y naill neu'r llall neu'r ddau o'r disgrifiadau a bennir yn y rheoliad 4(3) a fewnosodir. Ehangir y disgrifiad sy'n cynnwys pobl ag anabledd difrifol i'w dwy fraich.

Mae rheoliad 5 hefyd yn diwygio'r disgrifiad o bersonau y ceir rhoi bathodyn person anabl iddynt drwy gynnwys rhai sy'n cael budd-dal penodedig o dan Orchymyn y Lluoedd Arfog a'r Lluoedd wrth Gefn (Cynllun Iawndal) 2011 (OS 2011/517) ac yr ardystir bod ganddynt anabledd parhaol a sylweddol sy'n achosi anallu i gerdded neu anhawster cerdded sylweddol iawn.

Mae rheoliad 7 yn rhoi paragraff newydd yn lle rheoliad 6(2) o Reoliadau 2000, i ddarparu bod bathodynnau i'w rhoi am gyfnodau a ddaw i ben yn union ar ôl trydydd pen-blwydd y plentyn, yn achos bathodynnau a roddir i blant o dan dair blwydd oed; ac ar y dyddiad y peidia'r lwfans (os yw'r cyfnod yn llai na thair blynedd) yn achos personau sy'n cael lwfansau penodedig.

Mae rheoliad 10 a'r Atodlen yn diwygio testun Saesneg yr Atodlen i Reoliadau 2000, drwy roi diagram newydd, sy'n cynnwys y newid enwau, yn lle'r diagram o fathodyn sefydliad.

Mae asesiad rheoleiddiol llawn o effaith y diwygiadau ar gostau busnesau a'r sector gwirfoddol ar gael o'r Uned Trafnidiaeth Integredig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.